Canllawiau ar gyfer Ffilm Cymru Wales yw'r rhain

# Cronfa Ddatblygu ar gyfer Ffilmiau Dogfen Nodwedd

**Cynnwys**


Cyflwyniad ........................................................................3

O ble y daw cyllid datblygu Ffilm Cymru Wales?................................4

Beth yw'r meini prawf ar gyfer y gronfa hon?..................................5

Meini Prawf Cymhwysedd........................................................5

Blaenoriaethau Cyllid Ffilmiau.....................................................7

Beth nad ydym yn gallu ei ariannu ...............................................8

Sut ydw i'n gwneud cais? ...........................................................8

Dyddiadau cau...........................................................................9

A ddylwn i wneud cais am ddyfarniad bach ynteu dyfarniad mawr? ..........................................................................................10

Deunyddiau ategol ar gyfer cais am gyllid datblygu ......................11

Manylion y Gyllideb....................................................................12

Costau Mynediad .......................................................................14

Ffioedd cyfarwyddwyr (ac awduron)...........................................14

Ffioedd a gorbenion Cynhyrchwyr ..............................................15

Ffioedd cyfreithiol .......................................................................15

Ffioedd amserlennu a'r gyllideb ..................................................16

Allaf i gael cymorth ar gyfer mynediad gyda fy nghais? .................16

Manylion Cysylltu .......................................................................17

Beth fydd yn digwydd nesaf? .......................................................17



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# Deunyddiau ategol ar gyfer cais am gyllid datblygu

Bydd gofyn i chi gyflwyno'r canlynol gyda'ch cais am gyllid datblygu:

*Dyfarniadau bach*

a) Fan lleiaf, ymdriniaeth o tua 2,000-3,000 o eiriau
b) CVs ar gyfer eich tîm craidd
c) Manylion y cytundebau hawliau sylfaenol/opsiynau os yw hynny'n berthnasol
d) Copi o bolisi cynaliadwyedd/amgylcheddol, polisi bwlio ac aflonyddu a pholisi amrywiaeth a chynhwysiant eich cwmni (os ydych chi'n gwneud cais fel cwmni).
e) Dolen weithredol i'r gwaith ffilmio blaenorol mwyaf perthnasol gan y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd OS oes cyfarwyddwr ynghlwm wrth y prosiect.
f) Manylion y swm a wariwyd hyd yma a faint o'r gwariant sydd wedi cael ei ariannu

*Dyfarniadau mawr*

a) Fan lleiaf, ymdriniaeth o tua 4,800-6,000 o eiriau. Os ydych chi'n gweithio ar ffilm ddogfen hybryd neu wedi'i sgriptio, ac os oes sgript ar gael, yna gallwch chi yn hytrach ddarparu'r sgript honno yn lle ymdriniaeth.
b) Eitemau **b** drwodd i **e** uchod.

Bydd unrhyw ddeunyddiau gweledol eraill fel deunydd arbrofi, fideo arddangos y cyfarwyddwr, taflenni teimladau, neu ddesgiau cyflwyno, yn cryfhau eich cais.

Bydd y ffioedd yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar brofiad. Ar gyfer cyd-gyfarwyddwyr byddem yn disgwyl i'r ffi ar gyfer pob cyfarwyddwr fod yn is.

Ni ellir talu ffi i gyfarwyddwyr am fod ynghlwm adeg datblygu prosiect, a rhaid iddynt fod â rhan ystyrlon i'w chwarae yn y gwaith datblygu.

Os yw eich ffilm ddogfen yn gofyn am sgript, a'ch bod yn gweithio gydag awdur sy'n rhywun gwahanol i'r cyfarwyddwr, gallwch edrych ar y cyfraddau a argymhellir gan y Writers Guild fel canllaw.[8] Mae ffioedd awduron yn amrywio yn dibynnu ar brofiad. Ar gyfer cyd-awduron byddem yn disgwyl i'r ffi ar gyfer pob awdur fod yn is.

## Ffioedd a gorbenion Cynhyrchwyr

Dylai ffioedd cynhyrchwyr/cynhyrchu fod yn gymesur â'r gyllideb arfaethedig. Os ydym yn penderfynu cefnogi'r prosiect, byddwn yn trafod y ffioedd hyn gyda chi. Er bod eithriadau, mae ffioedd cyfun cynhyrchwyr a/neu'r gorbenion/ffioedd cynhyrchu, ar gyfartaledd, yn oddeutu 7-8%, a ddim mwy na 10%, o'r costau cynhyrchu uniongyrchol (h.y. y gyllideb gynhyrchu llai ffioedd y cynhyrchydd a'r gorbenion/ffioedd cynhyrchu). Nid ydym yn annog neb i ohirio unrhyw ffioedd.

## Ffioedd cyfreithiol

Hyd at £2,000 am gytundeb opsiwn a throsglwyddo ynghylch gwaith unigol sylfaenol sydd eisoes yn bodoli neu am gytundeb gwasanaethau datblygu cyfarwyddwyr neu ddogfen ofynnol arall os cytuna Ffilm Cymru.

---

[8] writersguild.org.uk/rates-agreements/

